OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1047

## Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

## RHAN 3

Rhanddirymiadau ar gyfer cyfryngau cludo ar y ffordd ar deithiau o dan 12 awr

### Cymhwyso

**12.** Yn unol ag Erthygl 18(4) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, mae'r rhanddirymiadau yn y Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â chyfrwng cludo ar y ffordd a ddefnyddir ar gyfer taith nad yw'n hwy na 12 awr er mwyn cyrraedd y gyrchfan derfynol ("cyfrwng cludo ar y ffordd").

### Rhanddirymu arolygu a chymeradwyo

**13.** At ddibenion Erthygl 18(1) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, nid oes angen tystysgrif gymeradwyaeth ar gyfrwng cludo ar y ffordd a ddefnyddir i gludo anifeiliaid ac eithrio equidae domestig neu anifeiliaid domestig o deulu'r ych, teulu'r ddafad, teulu'r afr, neu deulu'r mochyn.

### Rhanddirymu'r gofyniad am fynediad parhaus i ddwr

**14.** At ddibenion pwynt 1.4(b) Pennod V o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, yn ystod taith—

(a) nid oes ar foch angen mynediad parhaus i ddwr ar gyfrwng cludo ar y ffordd;

(b) rhaid cynnig dwr i foch bob hyn a hyn fel y bo'n briodol a rhoi cyfle digonol iddynt yfed.

### Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch to sydd wedi'i inswleiddio

**15.** At ddibenion pwynt 1.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, nid oes angen inswleiddio to ar gyfrwng cludo ar y ffordd.

### Rhanddirymu'r gofynion ynghylch tymheredd

**16.**—(1) At ddibenion pwynt 3.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, caniateir i dymheredd ar gyfrwng cludo ar y ffordd ostwng islaw 0°C yn ystod taith—

(a) hyd at yr amser y caiff y cyfrwng cludo ar y ffordd ei symud am y tro cyntaf yn y man ymadael; a

(b) yn ystod unrhyw ddadlwytho a llwytho sy'n digwydd mewn mannau trosiannol ar y daith.

(2) Ond pan fo'r tymheredd yn gostwng islaw 0°C, rhaid darparu i foch, sy'n pwyso llai na 30kg ac nad yw eu mam yn mynd gyda hwy ar y daith, ddigon o ddeunydd sarn sy'n briodol i'r rhywogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cynnes a chysurus.

### Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch systemau awyru

**17.** O ran y system awyru ar gyfrwng cludo ar y ffordd—

(a) nid yw'n ofynnol iddi fod â'r galluoedd a ddisgrifir ym mhwynt 3.2 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005;

(b) rhaid bod modd ei haddasu er mwyn sicrhau y cedwir at y gofynion ar gyfer tymereddau a nodir yn y pwynt hwnnw ac yn erthygl 16(1) yn ystod y daith.

**Rhanddirymu'r gofynion ynghylch monitro tymheredd**

**18.** Nid yw'n ofynnol cael y systemau monitro tymheredd, cofnodi data a rhybuddio y cyfeirir atynt ym mhwyntiau 3.3 a 3.4 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar gyfrwng cludo ar y ffordd.

**Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch system lywio**

**19.** Nid yw'n ofynnol cael y system lywio y cyfeirir ati ym mhwynt 4.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar gyfrwng cludo ar y ffordd.